

Nadolig * Llawen

'O tyred di Immanuel'

'Faint sydd yn rhaid inni aros tan 'Dolig eto?' meddai un o'r wŷrion y noson o'r blaen.

I blentyn bach, wrth weld cymaint o hysbysebu teganau ar y teledu, a hynny ers amser bellach, mae'r Nadolig yn hir iawn yn dod.

Dyna'n union sut oedd cenedl Israel yn teimlo, dwi'n siŵr.

Roedd yna lawer iawn o hysbysebu wedi bod, fod y Meseia yn mynd i gael ei anfon, a hwythau yn gweld yr amser yn hir iawn yn dod.

Roedd Duw wedi addo drwy Eiseia: *'O'r cyff a adewir i Jesse fe ddaw blaguryn, ac fe dyf cangen o'i wraidd ef, bydd ysbryd yr Arglwydd yn disgyn arno.'*

Ac roedd hyd yn oed wedi dweud be fyddai'n digwydd, a sut!

'Wele ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel.'

Yn lle oedd hyn i ddigwydd? *'Ym Methlehem,'* meddai Mica.

Mae'n debyg fod y genedl, fel y plant heddiw. Yn methu disgwyl, am gymaint o flynyddoedd.

'O tyred di, Immanuel a datod rhwymau Israel,' meddai'r emynydd.

Cenedl wedi ei chaethiwo oeddynt ac yn disgwyl am ryddhad. Ond aeth llawer iawn o amser heibio rhwng yr addewidion a'r cyflawniad.

Yn ei amser ei hun, mae Duw yn gwireddu ei addewidion.

Pwy glywodd am y newydd gynta', fod yr amser wedi dod?

Cafodd Sachareias gliw reit dda, pan

ddywedodd yr angel ei fod am gael mab ac y byddai'r mab hwnnw'n mynd i droi llawer o bobl yn ôl at yr Arglwydd eu Duw.

Yna cafodd Mair ymweliad gan yr angel a chael gwybod ei bod hi am fod yn fam i fab y Duw Goruchaf; a'r baban yng nghroth Elisabeth yn rhoi naid, a hynny cyn i Joseff gael gwybod bod y baban fyddai'n cael ei eni i Fair yn mynd i achub pobl o'u pechodau.

Roedd y Nadolig wedi dod, ond doedd dim dathlu, dim rhialtwch, dim hyd yn oed Siôn Corn!

Roedd pobl oedd wedi dod yno i gael eu trethu yn brysur iawn ym Methlehem y noson honno, a doedden nhw ddim yn gwybod dim am y geni gwyrtiol yn llety'r anifail.

Dim ond criw bach o bobl welodd y Meseia. A chafodd bugeiliaid tlawd gwerinol ar fynydd uwchben Bethlehem y newydd gan angel ynghanol y nos, ac wedi ei weld aethant adref gan foli Duw.



Addoliad y Bugeiliaid gan Giovanni Domenico Tiepolo c.1751-1753

(parhad ar y dudalen nesaf)

Rhyfeddod yr Ymgnawdoliad

Roedd Sant Ioan Aurenau (Chrysostom) (349-407) yn Archesgob Caergystennin. Dywedid bod ei bregethu mor rymus ac mor llawn o awdurdod fel bod ei eiriau grasol fel aur gwerthfawr yng nghlyw ei wrandawyr. Ac wrth fyfyrto ar fawredd yr Ymgnawdoliad trodd ei foliant yn rhyfeddod wrth weld dyfodiad Duwdod mewn baban i'n byd.

Rwy'n gweld dirgelwch newydd a rhyfeddol. Mae fy nghlyw yn cael ei swyno gan gân Bugeiliaid, nid fel melodi fwynaid, ond fel datganiad cadarn emyn nefolaidd. Mae'r Angylion yn canu. Una'r archangylion eu lleisiau mewn cytgord llon. Cân y Ceriwbaid eu moliant llawen. Mae'r Seraphim yn dyrchafu ei ogoniant. Y mae pawb yn uno yn y wledd sanctaidd, yn gweled y Duwdod yma ar y

ddaebar a dyn yn y nefoedd. Y mae Ef sydd goruwch pawb er mwyn ein hiachawdwriaeth yn trigo'n isel yma. A chaiff yr hwn sydd yn isel, trwy drugaredd ddwyfol ei ddyrchafu. Y mae Bethlehem ar y dydd hwn yn ymdebygu i'r nefoedd; caiff glywed o'r sêr canu lleisiau angylaidd; ac yn lle'r haul caiff feddiannu o'i fewn Haul Cyfiawnder. Ac na ofynnwch 'sut'? Oherwydd lle mae Duw yn ewyllysio, mae trefn natur yn ildio. Ewyllysiodd Ef. Roedd ganddo rym. Fe ddarostyngodd ei hun. Fe'n prynodd; mae popeth yn symud mewn ufudd-dod i Dduw. Y dydd hwn cafodd Ef yr Hwn Sydd ei eni; a daeth Ef yr Hwn Sydd yr hyn nad ydoedd. Oherwydd pan roedd yn Dduw, daeth Ef yn ddyn; ac eto ni chiliodd oddi wrth y Duwdod sy'n eiddo iddo. Heb golli dim o'i ddwyfoldeb daeth Ef yn ddyn, a heb unrhyw gynnydd neu ddyrchafiad daeth Ef yn Dduw o ddyn: ond ag yntau yn Air daeth yn gnawd, ei natur ddigyfnawd a arhosodd yn ddigyfnawd.

John Chrysostom

'O tyred di Immanuel'

(parhad o dudalen 1)

Do. Clywodd Herod wedi ymweliad gan rai oedd wedi teithio o bell tuag at Fethlehem. Clywodd Herod am y brenin, ond nid ei addoli wnaeth o, ond lladd plant bach rhag ofn iddo golli ei statws.

Ond roedd yna ddau oedd yn gweddïo beunydd yn y deml am yr un oedd yn mynd i achub Israel. Simeon ac Anna oeddynt. A chawsant eu dymuniad.

Does dim byd yn newid.

Ychydig o bobl fydd yn gweld y Meseia'r Nadolig hwn hefyd.

Er ein bod ni wedi clywed y newydd, mae llawer yn dymuno ei anwybyddu.

Daeth addewid Duw yn wir, daeth Immanuel i Fethlehem, ac mae Duw yn ein plith o hyd. 'Daeth y Gair yn gnawd ac a drigodd yn ein plith.'

Mae hi'n fyd anodd iawn. Mae yna gymaint o ddrygioni i a chasineb, a doedd hi fawr gwell yr adeg honno chwaith. Ond newidodd dyfodiad y Meseia'r byd am byth.

Daeth i achub eneidiau ac i gynnig iachawdwriaeth i filoedd sydd yn credu ynddo.

Fel y gobaith oedd gan y genedl, gweddïodd Simeon ac Anna amdano, a dyma'r gobaith gadwodd Mair yn ei chalon, mae gobaith i ninnau hefyd y Nadolig hwn, wrth ail fyw'r stori nad yw byth yn heneiddio. Unwaith eto, cawn wybod.

Gwybod, ar waethaf popeth arall, fod ein gwaredwr wedi dod i'n plith.

Ar drothwy'r Nadolig hwn cofiwn oll am bwysigrwydd yr Immanuel, ei eni, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad, a'r addewid y daw eto rhyw ddydd.

Olwen Williams
Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd.

(Gol. Diolch i'r Llywyddion am ein harwain i fyfyr am ystyr yr Adfent).

Ai hyn yw'r Nadolig ... Duw a ŵyr

Mae'n siŵr erbyn hyn fod rhywun yn rhywle wedi gofyn a oes gynnoch chi bopeth yn ei le ar gyfer y Nadolig? Dw i'n ysgrifennu'r pwt yma o lith ddechrau Rhagfyr ac yn siŵr y bydd rhywun, wrth i mi fynd o gwmpas fy ngorchwylion yn gofyn yr union gwestiwn hwnnw sawl gwaith yn ystod yr wythnos nesa'.

Mae'r cwestiwn ei hun yn peri dryswch i mi oherwydd does gen i mo'r syniad lleiaf sut i'w ateb.



Ai hyn yw'r Nadolig?

Dyw'r Nadolig presennol ddim yn atyniadol o gwbl i mi.

Pwyllwch am eiliad wrth i chi ail ddarllen y gosodiad blaenorol.

Y FFUG Nadolig a'r elfen ffantasi a grëwyd gennym sy'n peri'r tramgwydd i mi, yr holl bwylais ar brynu a gwerthu, yr elfen chwedlonol a gyflwynwyd ac a ychwanegwyd ati a'r storïau di-sail sy'n gosod dynion eira a dynion gofod yn blwmp ac yn blaen yng nghanol geni Bethlehem. Mae'r ffug Nadolig hwnnw'n fy ngwylltio'n llwyr.

Mae ffug sirioldeb a hwyl hysbysebion y siopau mawr, y pwylais ar loddesta, a'r cardiau Nadolig Fictorianaid hefyd yn fy

anesmwytho. Dyna pam y medraf ateb yn blwmp ac yn blaen na fyddaf byth yn barod ar gyfer y math hwn o Nadolig!

Dyna'r ochr negyddol i'r darlun. Dw i'n amau erbyn hyn eich bod yn disgwyl am yr ochr bositif i'r lliith bresennol – wel dyma fo. Yr hyn sy'n fy nghyffroi ynglŷn â'r ŵyl yw hanes gwyrthiol yr Ymgawdoliad a'r sôn am ddyfodiad Duw i'n byd ar ffurf baban. Y pennawd sy'n crynhoi hwn yw, 'Daeth y Gair yn berson o gig a gwaed.' (beibl.net) Y Gair sy'n byw yn ein plith yn llawn 'gras a gwirionedd.'

Yr hyn sy'n fy ysbrydoli yw lleoliad geni Crist ym Methlehem. Gorfodwyd hyn oherwydd gofynion cofrestru llywodraeth anhrugarog a lywodraethai adeg ei eni, er bod hynny yn ôl yr Ysgrhythurau. Bod Mair, y ferch ifanc ostyngedig, benderfynol yn ysbrydoliaeth i ni, ynghyd â'r geni tlawd mewn stabl a hynny am fod pob drws arall wedi ei gau'n glep yn eu hwynebau. A beth am y newyddion da a roddwyd yn gyntaf i'r bugeiliaid, i'r doethion ac yna i'r cenhedloedd? Beth am symlrwydd yr hanes yn yr Efengylau a dyfnder y ddiwyddiaeth sy'n dweud am Iesu Grist a phwrpas Duw ar ein cyfer? Dyma'r Newyddion Da sy'n dweud 'Na' pendant i awdurdodau grymus yr oesau – boed yn wladwriaeth neu yn y Deml – ac sy'n dweud 'Ie' i ryfeddod tlws genedigaeth plentyn a Duw ei hun yn cael ei weld ynddo. Mae'n 'Na' fyddarol i syniadau'r ddynoliaeth am beth yw ystyr bod yn 'fawr' ac yn taranu 'Ie' i ddyrchafu'r gwan a'r gostyngedig; dyma'r Newyddion Da sy'n gwrthod ymfrost dyn ac yn croesawu'r distadl a'r tlawd ei ysbryd.

Wedi'r Nadolig caiff yr addurniadau a'r goeden Nadolig eu rhoi o'r neilltu. Yna wrth i'r flwyddyn newydd ddod yn ei thro bydd ein cymdeithas yn hoelio ei sylw ar yr ŵyl nesaf ddaw ar ein Calendrau – Gŵyl Santes Dwynwen neu ŵyl San Ffolant. Ond i bobl Dduw mae'r gwaith go iawn yn parhau.

Geiriau Iesu wrth iddo fynd i'r Synagog yn Nasareth sy'n fy ngwir ysbrydoli.

'Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i, oherwydd mae wedi fy eninio i i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd. Mae wedi fy anfon i gyhoeddi fod y rhai sy'n gaeth i gael rhyddid, a phobl sy'n ddall i gael eu golwg yn ôl, a'r rhai sy'n cael eu cam-drin i ddianc o afael y gormeswr, a dweud hefyd fod y flwyddyn i'r Arglwydd ddangos ei ffafr wedi dod.'

Luc 4

Yr her yw i ninnau ei efelychu yn ein hoes!

Brian Matthews
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

